



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2020 Rhif 1042 (Cy. 231)**

**2020 No. 1042 (W. 231)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 12) 2020**

**The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel)  
(Wales) (Amendment) (No. 12)  
Regulations 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/574 (W. 132)) (the "International Travel Regulations"). The International Travel Regulations have been previously amended by:

- the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 (S.I. 2020/595) (W. 136);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Public Health Information to Travellers) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/714) (W. 160);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 (S.I. 2020/726) (W. 163);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2020 (S.I. 2020/804) (W. 177);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2020 (S.I. 2020/817) (W. 179);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 4) Regulations 2020 (S.I. 2020/840) (W. 185);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226).
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 5) Regulations 2020 (S.I. 2020/868) (W. 190);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 6) Regulations 2020 (S.I. 2020/886) (W. 196);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2020 (S.I. 2020/917) (W. 205);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 8) Regulations 2020 (S.I. 2020/944) (W. 210);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 9) Regulations 2020 (S.I. 2020/962) (W. 216);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 10) Regulations 2020 (S.I. 2020/981) (W. 220);
- the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 11) Regulations 2020 (S.I. 2020/1015) (W. 226).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemtio rhag gorfod cydymffurfio. Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor Curaçao, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Slofacia o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

The International Travel Regulations impose requirements on persons entering Wales after having been abroad. They include a requirement for persons arriving in Wales to isolate for a period determined in accordance with the Regulations. The requirements imposed by the International Travel Regulations are subject to exceptions, and certain categories of person are exempt from having to comply. Persons entering Wales after being in one or more of the countries and territories listed in Schedule 3 to the International Travel Regulations are not required to isolate. The countries and territories listed in Schedule 3 are referred to as "exempt countries and territories".

Part 2 of these Regulations amends the list of exempt countries and territories.

Regulation 2 of these Regulations amends the International Travel Regulations to remove Curaçao, Denmark, Iceland and Slovakia from the list of exempt countries and territories.

Regulation 3 of these Regulations makes transitional provision relating to these countries' and territories' change of status. The transitional provision addresses a potential area of doubt in terms of the effect on the operation of the International Travel Regulations, of the amendments made by regulation 2 of these Regulations.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn darparu eithriad i'r gofyniad i ynysu ar gyfer athletwyr elít a phersonau sy'n darparu cymorth iddynt sy'n cyrraedd Cymru at ddiben cael asesiadau meddygol gyda busnes at ddiben contractio i gymryd rhan mewn cystadlaethau elít. Mae rheoliad 4 hefyd yn caniatáu i athletwyr elít o'r fath, pan fyddant yn contractio gyda busnes, gymryd rhan yn y gystadlaethau elít ar ran y busnes hwnnw.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o bersonau esempt yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar gyfer athletwyr elít domestig, eu hyfforddwyr a phersonau eraill sy'n darparu cymorth iddynt, pan fyddant yn dychwelyd i Gymru ar ôl bod mewn gwlad nad yw'n esempt at ddiben rhaglen hyfforddi elít.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 3 of these Regulations make miscellaneous amendments to the International Travel Regulations.

Regulation 4 of these Regulations amends regulation 10 of the International Travel Regulations to provide an exception to the requirement to isolate for elite athletes and persons supporting them arriving in Wales for the purpose of undergoing medical assessments with a business for the purpose of contracting to participate in elite competitions. Regulation 4 also permits such elite athletes, upon contracting with a business to participate in the elite competition on behalf of that business.

Regulation 5 of these Regulations amends the list of exempt persons in Schedule 2 to the International Travel Regulations for domestic elite athletes, coaches and other support persons upon their return to Wales when having been in a non-exempt country for the purpose of an elite training programme.

Regulation 6 of these Regulations amends the list of sporting events in Schedule 4 to the International Travel Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

**2020 Rhif 1042 (Cy. 231)**

**2020 No. 1042 (W. 231)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Coronafeirws, Teithio  
Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 12) 2020**

**The Health Protection  
(Coronavirus, International Travel)  
(Wales) (Amendment) (No. 12)  
Regulations 2020**

*Gwnaed*                      *am 3.13 p.m. ar 25 Medi 2020*

*Made*                      *at 3.13 p.m. on 25 September 2020*

*Gosodwyd*                      *gerbron*                      *Senedd*  
*Cymru*                      *am 6.00 p.m. ar 25 Medi 2020*

*Laid*                      *before*                      *Senedd*  
*Cymru*                      *at 6.00 p.m. on 25 September 2020*

*Yn dod i rym*                      *am 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020*

*Coming*                      *into*  
*force*                      *at 4.00 a.m. on 26 September 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 45B and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1), make the following Regulations.

**RHAN 1**

**PART 1**

**Cyffredinol**

**General**

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**Title, coming into force and interpretation**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020.

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) (Amendment) (No. 12) Regulations 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020.

(2) These Regulations come into force at 4.00 a.m. on 26 September 2020.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

---

(1) 1984 c. 22. Part 2A was inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The function of making regulations under Part 2A is conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister as respects Wales, is the Welsh Ministers.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y “Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(1).

## RHAN 2

Diwygiadau i’r rhestr o wledydd esempt yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Hepgor gwledydd a thiriogaethau o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt

2. Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin), hepgorer—

- “Curaçao”
- “Denmarc”
- “Gwlad yr Iâ”
- “Slofacia”.

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 24

3.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

- (a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 26 Medi 2020 neu wedi hynny, a
- (b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—
  - (i) o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a
  - (ii) cyn 4.00 a.m. ar 26 Medi 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i’w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw’n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o’r fath.

(3) In these Regulations, the “International Travel Regulations” means the Health Protection (Coronavirus, International Travel) (Wales) Regulations 2020(1).

## PART 2

Amendments to the list of exempt countries in Schedule 3 to the International Travel Regulations

### Removal of countries and territories from the list of exempt countries and territories

2. In Part 1 of Schedule 3 to the International Travel Regulations (exempt countries and territories outside the common travel area), omit—

- “Curacao”
- “Denmark”
- “Iceland”
- “Slovakia”.

### Transitional provision in connection with regulation 2

3.—(1) Paragraph (2) applies where a person (“P”)—

- (a) arrives in Wales at or after 4.00 a.m. on 26 September 2020, and
- (b) was last in a country or territory listed in regulation 2—
  - (i) within the period of 14 days ending with the day of P’s arrival in Wales, and
  - (ii) before 4.00 a.m. on 26 September 2020.

(2) P is, by virtue of having been in a country or territory listed in regulation 2, to be treated for the purposes of regulations 7(1) and 8(1) of the International Travel Regulations as having arrived in Wales from, or having been in, a non-exempt country or territory.

(1) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220) ac O.S. 2020/1015 (Cy. 226).

(1) S.I. 2020/574 (W. 132) as amended by S.I. 2020/595 (W. 136), S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/726 (W. 163), S.I. 2020/804 (W. 177), S.I. 2020/817 (W. 179), S.I. 2020/840 (W. 185), S.I. 2020/868 (W. 190), S.I. 2020/886 (W. 196), S.I. 2020/917 (W. 205), S.I. 2020/944 (W. 210), S.I. 2020/962 (W. 216), S.I. 2020/981 (W. 220) and S.I. 2020/1015 (W. 226).

## RHAN 3

### Diwygiadau Amrywiol

#### Diwygiadau i reoliad 10 (eithriadau i'r gofynion ynysu)

4.—(1) Mae rheoliad 10 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl paragraff (4)(jd) mewnosoder—

“(jh) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i gael un neu ragor o archwiliadau meddygol, i fynd i'r archwiliad hwnnw, ar yr amod—

- (i) bod yr archwiliad meddygol at ddiben busnes sy'n penderfynu pa un ai i gynnig contract i P i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît ar ran y busnes hwnnw,
  - (ii) bod gan P gadarnhad ysgrifenedig yn ei feddiant oddi wrth y busnes hwnnw o'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (i), a
  - (iii) bod y trefniadau hynny wedi eu gwneud cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;
- (ji) pan fo P yn berson sy'n teithio gydag athletwr elît at ddiben is-baragraff (jh), i ddarparu cynorthwy a chymorth i'r athletwr elît hwnnw mewn cysylltiad ag archwiliad meddygol o'r fath;
- (jj) pan fo P yn athletwr elît sydd wedi contractio â busnes i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elît, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth o'r fath neu ymgymryd â hyfforddiant neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth elît honno;”;

(3) Ym mharagraff (8), yn y man priodol mewnosoder—

“mae i “athletwr elît” (“*elite athlete*”) yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(a) o Atodlen 2”;

“mae i “cystadleuaeth elît” (“*elite competition*”) yr un ystyr ag ym mharagraff 38(2)(b) o Atodlen 2”.

#### Diwygio Atodlen 2 (personau esempt)

5.—(1) Yn Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae paragraff 38 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

## PART 3

### Miscellaneous Amendments

#### Amendments to regulation 10 (exceptions to isolation requirements)

4.—(1) Regulation 10 of the International Travel Regulations is amended as follows.

(2) After paragraph (4)(jd) insert—

“(jh) where P is an elite athlete who has travelled to the United Kingdom to undergo one or more medical examination, to attend that medical examination, provided—

- (i) the medical examination is for the purpose of a business determining whether to offer P a contract to participate in an elite competition on behalf of that business,
  - (ii) P is in possession of written confirmation from that business of the arrangements referred to in paragraph (i), and
  - (iii) such arrangements were made prior to P arriving in the United Kingdom;
- (ji) where P is a person who is travelling with an elite athlete for the purpose of sub-paragraph (jh), to provide assistance and support to that elite athlete in connection with such medical examination;
- (jj) where P is an elite athlete who has contracted with a business to participate in an elite competition, to participate in such competition or undertake training or other activities connected to that elite competition;”;

(3) In paragraph (8), in the appropriate places insert—

““elite athlete” (“*athletwr elît*”) has the same meaning as in paragraph 38(2)(a) of Schedule 2”;

““elite competition” (“*cystadleuaeth elît*”) has the same meaning as in paragraph 38(2)(b) of Schedule 2”.

#### Amendment to Schedule 2 (exempt persons)

5.—(1) In Schedule 2 (exempt persons) to the International Travel Regulations, paragraph 38 is amended as follows.

(2) Yn is-baragraff (1)(b), yn lle “darparu cymorth i athletwr elit mewn cystadleuaeth elit dramor neu a fu fel arall yn ei hyfforddi” rhodder “hyfforddi athletwr elit mewn cystadleuaeth elit dramor neu a fu fel arall yn darparu cymorth iddo”.

(3) Ar ôl is-baragraff (1)(c) mewnosoder—

“(d) sy’n athletwr elit a fu’n mynychu rhaglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elit,

(e) a fu’n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit ar raglen hyfforddi dramor at ddiben hyfforddi neu baratoi’r athletwr elit hwnnw i gymryd rhan mewn cystadleuaeth elit,”

(4) Yn y geiriau ar ôl is-baragraff (1)(e), ar ôl “gystadleuaeth elit dramor” mewnosoder “neu’r rhaglen hyfforddi dramor”.

#### **Ychwanegiadau at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig)**

6.—(1) Mae Atodlen 4 (digwyddiadau chwaraeon penodedig) i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 3, ar y diwedd mewnosoder—

“(i) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Camp Lawn Ddartiau Boylesports;

(j) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Rowndiau Terfynol Pencampwriaeth Chwaraewyr Ladbroke;

(k) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Pencampwriaeth Ddartiau y Byd William Hill;

(l) Y Gorfforaeth Ddartiau Broffesiynol - Grand Prix y Byd Boylesports.”

(3) Ym mharagraff 5, ar y diwedd mewnosoder—

“(o) Taith Ewrop - Pencampwriaeth yr Alban.”

(4) Ym mharagraff 7, ar y diwedd mewnosoder—

“(c) Motorsport UK - Pencampwriaethau Ceir Gwyllt Prydain;

(d) Motorsport UK - Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(e) Pencampwriaethau Ceir Teithio Prydain;

(f) Pencampwriaethau Rali Groes Prydain;

(g) Pencampwriaeth GT Prydain a Phencampwriaeth BRDC F3;

(2) In sub-paragraph (1)(b), for “support or other coaching” substitute “coaching or other support”.

(3) After sub-paragraph (1)(c) insert—

“(d) is an elite athlete who attended an overseas training programme for the purpose of training or preparing for participation in an elite competition,

(e) provided coaching or other support to an elite athlete at an overseas training programme for the purpose of training or preparing that elite athlete for participation in an elite competition.”

(4) In the words after sub-paragraph (1)(e), after “overseas elite competition” insert “or the overseas training programme”.

#### **Additions to the list of specified sporting events in Schedule 4 (specified sporting events)**

6.—(1) Schedule 4 (specified sporting events) to the International Travel Regulations is amended as follows.

(2) In paragraph 3, at the end insert—

“(i) Professional Darts Corporation - Boylesports Grand Slam of Darts;

(j) Professional Darts Corporation - Ladbroke’s Players Championship Finals;

(k) Professional Darts Corporation - William Hill World Darts Championship;

(l) Professional Darts Corporation - Boylesports World Grand Prix.”

(3) In paragraph 5, at the end insert—

“(o) European Tour - Scottish Championship.”

(4) In paragraph 7, at the end insert—

“(c) Motorsport UK - British Kart Championships;

(d) Motorsport UK - British Rallycross Championships;

(e) British Touring Car Championships;

(f) British Rallycross Championships;

(g) British GT Championship & BRDC F3 Championship;

- (h) Wythnos Gyflymder Goodwood;  
(i) Gŵyl Formula Ford Brands Hatch.”
- (5) Ym mharagraff 10, ar y diwedd mewnosoder—  
“(g) Taith Snwcer y Byd - Rowndiau Rhagbrofol Pencampwriaeth Meistri yr Almaen;  
(h) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored Gogledd Iwerddon;  
(i) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaethau'r DU;  
(j) Taith Snwcer y Byd - Pencampwriaeth Agored yr Alban;  
(k) Taith Snwcer y Byd - Grand Prix y Byd.”
- (6) Ym mharagraff 14, ar y diwedd mewnosoder—  
“(h) Pencampwriaeth Bocsio Ryngwladol - Queensberry Promotions.”
- (7) Ar y diwedd mewnosoder—  
“**20.** Pêl-rwyd - England Roses v Jamaica Sunshine Girls - Cyfres Pêl-rwyd Ryngwladol Vitality.”

- (h) Goodwood Speed Week;  
(i) Formula Ford Festival Brands Hatch.”
- (5) In paragraph 10, at the end insert—  
“(g) World Snooker Tour - German Masters Qualifiers;  
(h) World Snooker Tour - Northern Ireland Open;  
(i) World Snooker Tour - UK Championships;  
(j) World Snooker Tour - Scottish Open;  
(k) World Snooker Tour - World Grand Prix.”
- (6) In paragraph 14, at the end insert—  
“(h) International Championship Boxing - Queensberry Promotions.”
- (7) At the end insert—  
“**20.** Netball - England Roses v Jamaica Sunshine Girls - Vitality International Netball Series.”

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Am 3.13 p.m. ar 25 Medi 2020

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers  
At 3.13 p.m. on 25 September 2020

©©Hawlfraint y Goron 2020

© Crown copyright 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W202009251014 10/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1042>

ISBN 978-0-348-20626-5



9 780348 206265